**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (167)**
**Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1** - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

*Gohiriwyd yr Eitem hon ar 9 Tachwedd 2005*

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Eitem 3** - Datganiad Busnes

Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Newidiadau arfaethedig i strwythur yr Heddlu yng Nghymru.

**Eitem 5** - Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad - "Bodloni'r Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu".

**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 Adran 3: Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) 2005

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 7**- Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 - ***TYNNWYD YNOL***

**Eitem 8** - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

**Eitem 9** - Dadl ar Lwybrau Dysgu

**Eitem 10** - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty

.....................................

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

....................................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
*Gohiriwyd yr Eitem hon ar 9 Tachwedd 2005*

....................................

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

....................................

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Newidiadau arfaethedig i strwythur yr Heddlu yng Nghymru.

....................................

## Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad - "Bodloni'r Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu."

....................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 Adran 3: Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) 2005

**NDM2668 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25 Adran 3:

*1. Yn cymeradwyo'r Rheoliadau*

Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) 2005 *drafft, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005; a*

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth.***
**Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 - *TYNNWYD YNOL***

**NDM2669 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a gylchredwyd i Aelodau’r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005; a
iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol
Y memorandwm cywiriadau

.....................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

**NDM2670 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

**NDM2671 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

.....................................

## Eitem 9 - Dadl ar Lwybrau Dysgu

**NDM2672 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llwybrau Dysgu 14 -19 yng Nghymru.

2. Yn nodi argymhellion y Dirprwy Weinidog ar gyfer bwrw ymlaen â’r agenda 14-19.

3. Yn cytuno y dylai’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19.

<u>Dogfennau Ategol</u>
*Anfonwyd copïau o Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru at Aelodau’r Cynulliad ar 8 Tachwedd 2005. Nid yw'r ddogfen hon ar gael mewn fersiwn electroneg. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 7 + 8)**
**(2, 3, 4, 5 + 6)**

**1. David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

"ac yn credu y dylai’r Cynllun Gweithredu gydnabod gwerth astudiaethau galwedigaethol sy’n galluogi myfyrwyr i geisio swyddi sy’n gofyn am sgiliau arbennig, yn ogystal â’r cymwysterau sy’n paratoi myfyrwyr ar gyfer astudiaethau addysg bellach ac addysg uwch."

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu wrth ystyried datblygu ‘llwybrau dysgu sy’n canolbwyntio ar waith’ y dylai’r Gweinidog sicrhau bod profiad ymarferol o weithio yn yr amgylchedd priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau cymhwyster ac yn cyfarwyddo’r Gweinidog i gysylltu â sefydliadau perthnasol y cyflogwyr er mwyn sicrhau bod llefydd priodol ar gael.

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r ymrwymiad y bydd cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol, coleg a sefydliad hyfforddi yng Nghymru o fis Medi 2007 ymlaen.

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ddylai swyddogaeth newydd hyfforddwyr dysgu danseilio'r ffaith fod angen i'r dysgu gael ei arwain gan athrawon sydd wedi cymhwyso'n llawn.

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryder parhaus Estyn am ansawdd amrywiol profiadau dysgu yn y gwaith ac yn galw ar y Gweinidog i fynd i'r afael â hyn yn ei chynllun gweithredu.

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r adroddiad yn gwneud argymhellion clir ynghylch dyfodol Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAHau) ac yn galw ar y Gweinidog i egluro'i bwriadau yn y cyswllt hwn cyn gynted ag y bo modd.

**7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod 'angen newid sylweddol yn y ffordd y mae cyflogwyr yn ymwneud â' datblygu Llwybrau Dysgu.

**8. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu cyfranogaeth y sector annibynnol yn y broses o ddatblygu Llwybrau Dysgu.

..................................

## Eitem 10 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty

**NDM2667 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.12:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty ar gyfer 2004-05, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 8 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty ar gyfer 2004-05 - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

**.....................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 16 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**